

# GWOBRAU PRENTISIAETHAU APPRENTICESHIP AWARDS CYMRU 2021

DATHLU'R RHAI SYDD YN Y ROWND DERFYNOL  
CELEBRATING THE FINALISTS

PRIF NODDWR  
HEADLINE SPONSOR

openreach

PAMFFLED WEDI'I GEFNOGI GAN  
BROCHURE SUPPORTED BY



Partneriaeth  
Sgiliau  
Prifddinas  
Ranbarth  
Caerdydd

Cardiff  
Capital  
Region  
Skills  
Partner



UNDEB EWROPEAID  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop  
European Social Fund

# CYNNWYS

|                                                                                                                 |           |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>CYFLWYNIAD</b>                                                                                               | <b>3</b>  |
| <b>RHAGAIR Y GWEINIDOG</b><br>Vaughan Gething<br>Gweinidog yr Economi                                           | <b>4</b>  |
| <b>CROESO I'R GWOBRAU</b><br>John Nash<br>Cadeirydd Cenedlaethol<br>Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru | <b>5</b>  |
| <b>Y CYFLWYNYDD</b><br>Wynne Evans                                                                              | <b>6</b>  |
| <b>Y BEIRNIAID</b>                                                                                              | <b>7</b>  |
| <b>ROWND DERFYNOL: HYFFORDDEIAETHAU</b>                                                                         | <b>8</b>  |
| <b>ROWND DERFYNOL: PRENTISIAID</b>                                                                              | <b>16</b> |
| <b>ROWND DERFYNOL: CYFLOGWYR</b>                                                                                | <b>32</b> |
| <b>ROWND DERFYNOL: DARPARWYR DYSGU</b>                                                                          | <b>48</b> |

# CONTENTS

|                                                                                                       |           |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>INTRODUCTION</b>                                                                                   | <b>3</b>  |
| <b>MINISTERIAL FOREWORD</b><br>Vaughan Gething<br>Minister for Economy                                | <b>4</b>  |
| <b>WELCOME TO THE AWARDS</b><br>John Nash<br>National Chair<br>National Training Federation for Wales | <b>5</b>  |
| <b>HOST</b><br>Wynne Evans                                                                            | <b>6</b>  |
| <b>JUDGES</b>                                                                                         | <b>7</b>  |
| <b>TRAINEESHIPS FINALISTS</b>                                                                         | <b>8</b>  |
| <b>APPRENTICE FINALISTS</b>                                                                           | <b>16</b> |
| <b>EMPLOYER FINALISTS</b>                                                                             | <b>32</b> |
| <b>LEARNING PROVIDER FINALISTS</b>                                                                    | <b>48</b> |

# CYFLWYNIAD

Mae'r Gwobrau yn tynnu ynghyd y goreuon ymhlith dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant, sydd wedi dangos ymroddiad ac ymrwymiad llwyr i ddatblygu eu sgiliau a gwella eu busnes. Maent yn cynrychioli technoleg ddiweddaraf busnesau o safon fyd-eang. Rhaglenni Prentisiaethau sydd wedi'u teilwra yn unol ag anghenion diwydiant, a straeon am lwyddiant unigolion sy'n ysbrydoli.

Mae'r Gwobrau yn dathlu'r pethau aruthrol y mae dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr wedi'u cyflawni drwy Raglenni Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau o safon ledled Cymru, sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Roedd gan banel dethol o feirniaid dasg anodd wrth ddidoli ceisiadau o bob rhan o Gymru cyn dewis 35 o ymgeiswyr haeddiannol a fyddai'n cael mynd i'r rownd derfynol. P'un a fyddant yn cael gwobr ai peidio, mae gan bob un o'r rhain stori i'ch ysbrydoli, sy'n eu gwneud yn llysgenhadon gwirioneddol.

# INTRODUCTION

The Awards bring together the best of learners, employers and training providers, who have shown total dedication and commitment to skills development and business improvement. They represent cutting edge technology in world leading businesses, bespoke Apprenticeship Programmes designed to meet the needs of industry and inspiring individual success stories.

The Awards celebrate the outstanding achievements of learners, employers and providers involved in the delivery of quality Apprenticeship and Traineeship Programmes across Wales, which are funded by the Welsh Government through the European Social Fund.

A distinguished panel of judges had a difficult task filtering applications from all parts of Wales before selecting 35 worthy finalists. Irrespective of whether or not they collect an award, all the finalists have an inspiring story to tell, making them true ambassadors.

# RHAGAIR Y GWEINIDOG

## VAUGHAN GETHING AS

GWEINIDOG YR ECONOMI

Mae seremoni Gwobrau Prentisiaethau Cymru yn un o uchafbwyntiau blwyddyn byd dysgu seiliedig ar waith. Mae'n rhoi sylw i fusnesau ac unigolion sydd wedi rhagori yn Rhaglenni Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau Llywodraeth Cymru ac wedi mynd yr ail filltir i lwyddo yn ystod y cyfnod anodd hwn. Bu cyfnod pandemig y coronafeirws yn eithriadol o anodd ond gwelsom bobl ar eu gorau hefyd, gyda hyfforddwyr ymroddedig yn dangos dawn, sgiliau a gwytnwch, nid yn unig er mwyn eu llwyddiant nhw eu hunain ond hefyd wrth gefnogi pobl eraill. Mae ein prentisiaid a'n hyfforddeion yn dangos sut mae eu hyfforddiant wedi newid eu bywydau, gan eu helpu i gyflawni eu uchelgais o ran gyrfa neu gael trefn ar eu bywydau. Rwyf wrth fy modd ein bod ni, diolch i gamau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig profiadau ystyrlon i bobl o bob oed. Bydd cyflogwyr ym mhob rhan o'n cymuned fusnes yn elwa ar hyn hefyd, yn awr ac i'r dyfodol.

Mae prentisiaethau'n ffordd wych i unigolion, o bob oed, feithrin sgiliau gwerthfawr ac ennill cymwysterau, ac i gyflogwyr sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol gan eu gweithlu i gryfhau eu busnes. Bydd ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer ailgodi yn sicrhau nad oes cenhedlaeth goll yng Nghymru ac y bydd y wlad yn beiriant i greu twf cynaliadwy a chynhwysol. Rwy'n credu y bydd Prentisiaethau'n hollbwysig yn ein helpu i ddod dros effeithiau'r coronafeirws, a Brexit. Dyna pam y mae Llywodraeth newydd Cymru wedi ymrwymo ymhellach i greu 125,000 o lefydd ar Brentisiaethau dros y pum mlynedd nesaf. Rydym ni fel llywodraeth yn ymrwymo i ddatblygu diwylliant yng Nghymru lle mai recriwtio prentis yw'r norm i gyflogwyr, gan sicrhau bod cyfleoedd am swyddi a sgiliau o safon uchel ar gael i bobl. Hoffwn longyfarch pawb sydd yn y rownd derfynol eleni a dymuno'r gorau i bob un ohonoch ar gyfer y dyfodol.



# MINISTERIAL FOREWORD

## VAUGHAN GETHING MS

MINISTER FOR ECONOMY

A highlight of the work-based learning calendar, the Apprenticeship Awards Cymru showcases businesses and individuals who have excelled on the Welsh Government's Apprenticeship and Traineeship programmes and gone the extra mile to achieve success during these unprecedented times. The coronavirus pandemic has been incredibly difficult but we have seen the best in people too, with committed trainers showing talent, skills and resilience to not only succeed themselves but also support others. Our apprentices and trainees demonstrate the life-changing impact their training has had helping them achieve their career ambitions or in turning their lives around. I am delighted that, thanks to Welsh Government action, we are providing individuals of all ages with meaningful

experiences which will also benefit employers across all sectors of our business community now and in the future. Apprenticeships are a great way for individuals, at any stage of their lives, to gain valuable skills and qualifications, and for employers to ensure their workforce is equipped with the skills to strengthen their business. Our ambitious recovery plans will ensure there is no lost generation in a Wales that becomes an engine for sustainable, inclusive growth. I believe Apprenticeships will be vital in helping us recover from the impacts of coronavirus, and Brexit. That's why the new Welsh Government has made a further commitment to creating 125,000 Apprenticeship places over the next five years. As a government, we are committed to developing a culture in Wales where recruiting an apprentice becomes the norm for employers, giving individuals access to high quality job opportunities and skills. I'd like to congratulate all the finalists for this year's event, and to wish each and every one all the best for the future.



# CROESO I'R GWOBRAU

## JOHN NASH

CADEIRYDD  
FFEDERASIWN HYFFORDDIANT  
CENEDLAETHOL CYMRU

Croeso i seremoni Gwobrau Prentisiaethau Cymru 2021 – ein seremoni rithwir gyntaf. Hoffwn longyfarch pawb sydd yn y rownd derfynol – mae pob un ohonoch yn enillydd heno.

Mae'r gwobrau hyn yn mawrygu ac yn dathlu llwyddiant eithriadol dysgwyr, cyflogwyr ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith ledled Cymru. Eleni, mae'n bwysicach nag erioed i ni gydnabod yr hyn y maent wedi'i gyflawni gan fod pandemig Covid-19 wedi dod â heriau enfawr i bawb sy'n ymwneud â Rhaglenni Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau yng Nghymru.

Rwy'n falch iawn o'r ffordd y bu i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith addasu'n gyflym ac yn llwyddiannus i ddysgu o bell trwy fuddsoddi mewn staff ac offer. Trwy hyn, llwyddwyd i sicrhau bod y rhan fwyaf o'r prentisiaethau a'r hyfforddeiaethau wedi'u cwblhau er gwaetha'r cyfnodau clo.

Hoffwn ddiolch i Lywodraeth Cymru am gefnogi'r sector yn ystod y cyfnod anodd hwn ac i'r cyflogwyr am barhau i ddarparu cyfleoedd i brentisiaid.

Heno, a ninnau'n dathlu llwyddiant, mae'r NTfW yn cydnabod yr holl waith sydd i'w wneud i gefnogi economi Cymru dros y misoedd nesaf. Mae darparwyr dysgu seiliedig ar waith mewn sefyllfa unigryw i gefnogi cyflogwyr wrth iddynt dyfu allan o'r pandemig.



# WELCOME TO THE AWARDS

## JOHN NASH

CHAIR  
NATIONAL TRAINING FEDERATION  
FOR WALES

Welcome to the Apprenticeship Awards Cymru 2021 ceremony which is being held virtually for the first time. I extend my congratulations to all the finalists - you are all winners tonight.

These awards showcase and celebrate outstanding achievements by learners, employers and work-based learning practitioners across Wales. This year, it's more important than ever to acknowledge their achievements, following the huge challenges presented by the Covid-19 pandemic to all involved in Apprenticeship and Traineeship Programmes in Wales.

I am very proud of how quickly and successfully work-based learning providers have adapted to remote learning support by investing in staff and equipment to ensure that the majority of apprenticeships and traineeships have been completed despite the lockdowns.

I thank both the Welsh Government for supporting the sector during this difficult period and employers for continuing to provide apprenticeship opportunities.

Tonight, as we celebrate success, the NTfW acknowledges the huge amount of work to be done to support the Welsh economy in the coming months. Work-based learning providers are in a unique position to support employers as they grow out of the pandemic.





# Y CYFLWYNYDD

## WYNNE EVANS

Mae Wynne Evans yn un o brif denoriaid y DU. Mae ganddo gysylltiad agos ag Opera Cenedlaethol Cymru ble y bu'n un o'r prif denoriaid am flynyddoedd. Mae wedi perfformio ym mhob un o dai opera gorau'r byd.

Mae Wynne yn un o ddarlledwyr mwyaf poblogaidd Cymru. Mae'n cyflwyno rhaglen ddyddiol ar BBC Radio Wales ac mae'n cyflwyno cyfresi'n rheolaidd ar BBC Wales 1 a 2 ac S4C. Wynne sy'n cael y clod am lwyddiant y cwmni 'Go Compare' yn dilyn yr ymgyrch hysbysebu gwerth miliynau o bunnoedd y mae ynddo. Fe'i gwelir yn rheolaidd gan 75% o boblogaeth y DU ar unrhyw adeg benodol.

Mae Wynne yn fyd-enwog fel tenor gwyh ond mae yr un mor boblogaidd fel siaradwr neu gyflwynydd digwyddiadau erbyn hyn. Mae trefnwyr wrth eu bodd ag ef ac yn dod yn ôl ato dro ar ôl tro. Does neb gwell am gysylltu â'i gynulleidfa.

Mae Wynne yn rhedeg ymddiriedolaeth er cof am ei ddiweddar fam Elizabeth Evans MBE i noddi Cymry ifanc sy'n dymuno astudio am yrfa yn y celfyddydau perfformio. Mae Wynne yn llysgennad i Ambiwylans Sant Ioan Cymru, Ymddiriedolaeth Canser yr Arddgau a Sefydliad Prydeinig y Galon.



# HOST

## WYNNE EVANS

Wynne Evans is one of the UK's leading tenors. He enjoys a close association with Welsh National Opera where he has worked as a principal for many years. He has performed at all the top opera houses all over the world.

Wynne is one of the most popular broadcasters in Wales. He presents a daily programme on BBC Radio Wales and has regular series as presenter on BBC Wales 1 and 2 and S4C. Wynne is credited with the success of the 'Go Compare' company following the multi-million pound advertising campaign he fronts. He is regularly seen by 75% of the UK population at any given time.

Wynne is known throughout the world as an amazing tenor but his reputation as a speaker or host is now just as great. Event organisers love him and always come back to re-book. His interaction with his audience is second to none.

Wynne runs a trust in memory of his late mother Elizabeth Evans MBE which sponsors young Welsh people who wish to study for a career in the performing arts. Wynne is an ambassador for St. John Ambulance Wales, The Teenage Cancer Trust and the British Heart Foundation.



# Y BEIRNIAID

## DIOLCH YN ARBENNIG I'N HOLL FEIRNIAID

**CHRISTINE BISSEX**  
Y COLEG, MERTHYR TUDFUL  
THE COLLEGE, MERTHYR TYDFIL

**LOUISE BURNELL**  
GE AVIATION (WALES)

**NINA CHEESEMAN**  
BT

**CARMELA CARRUBBA**  
REAL SFX

**JOHN JONES**  
WARWICK CHEMICALS

**MARIA JONES**  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
RHONDDA CYNON TAF  
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# JUDGES

## OUR SPECIAL THANKS GO TO ALL OUR JUDGES

**WYN OWEN**  
WCO LTD.

**ANTHONY REES**  
CYFLE BUILDING SKILLS

**HANNAH WILLIAMS**  
BBC CYMRU

**LISA WINTER**  
ARTHUR J GALLAGHER

**SIAN WOOLSON**  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
RHONDDA CYNON TAF  
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**RACHEL MEESE-KENDALL**  
CRIMEWATCH ALARMS





## DYSGWR Y FLWYDDYN HYFFORDDEIAETHAU (YMGYSYLLTU)

Er mwyn ymgeisio am y wobwr hon mae'n rhaid bod y dysgwr wedi:

- cwblhau'r haen Ymgysylltu yn y Rhaglen Hyfforddeiaethau ac wedi symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu datblygiad personol neu i waith.
- goresgyn rhwystr sylweddol neu nifer o rwystrau tra oedd ar y Rhaglen Hyfforddeiaethau er mwyn symud ymlaen i gam nesaf ei (d)datblygiad personol neu i waith.
- symud ymlaen o'r haen Ymgysylltu yn y Rhaglen Hyfforddeiaethau rhwng 1 Awst 2017 a 31 Rhagfyr 2020 (yn cynnwys y ddau ddyddiad hynny).

## TRAINEESHIPS LEARNER OF THE YEAR (ENGAGEMENT)

To apply for this award the learner must have:

- completed and progressed from the Engagement strand of the Traineeships Programme to the next stage in their personal development or into employment.
- overcome a significant barrier or multiple barriers while on the Traineeships Programme to allow progression to the next stage of their personal development or into employment.
- progressed from the Engagement strand of the Traineeships Programme no earlier than 1 August 2017 and no later than 31 December 2020.

NODDWDYD GAN  
SPONSORED BY

# act.



## JESSICA APPS

**Symudodd Jessica Apps o ben draw'r byd i gychwyn bywyd newydd ym Mlaenafon gyda'i mam a'i chwaer iau ym mis Tachwedd 2019 ac erbyn hyn fe'i disgrifiwyd fel "esiampwr ddisglair" wrth iddi anelu at yrfa fel athrawes.**

Roedd dilyn Rhaglen Ymgysylltu Creadigol ar Hyfforddeiaeth gyda Sgiliau Cyf yn fodd i Jessica ddatblygu ei diddordeb mewn ffotograffiaeth ac ysgrifennu creadigol. Yn awr mae'n astudio ar gyfer ei Lefelau A yng Ngholeg Gwent gyda'r nod o fynd yn athrawes.

Meddai Jessica: "Ymunio â Sgiliau i wneud yr Hyfforddeiaeth oedd y penderfyniad gorau a wnes i. Ar ôl dim ond pum mis, roeddwn i'n teimlo mor hapus a bodlon yn fy mywyd newydd ac ro'n i'n cymryd y camau nesaf tuag at swydd fy mreuddwydion."

**Jessica Apps moved half way around the world to begin a new life in Blaenavon with her mum and younger sister in November 2019. Now she has been described as a "superb role model" and is setting her sights on a teaching career.**

A Traineeship Creative Engagement Programme with Sgiliau Cyf developed Jessica's passion for photography and creative writing. She is now studying 'A' levels at Coleg Gwent with the ultimate goal of becoming a teacher.

Jessica said: "Joining Sgiliau to do the Traineeship was the best decision I've made. After just five months, I found myself so happy and content with my new life and taking the next steps towards my dream job."







## ROSS VINCENT

**Mae Ross Vincent yn paratoi am yrfa ym myd adeiladu, ar ôl cymryd diddordeb mewn gosod brics tra oedd yn gwneud Hyfforddeiaeth.**

Ar ôl yr Hyfforddeiaeth, mae Ross, 18, sy'n byw yn Noc Penfro, wedi mynd ymlaen i sicrhau prentisiaeth gydag Evan Pritchard Contractors yn Hwlfordd, lle mae ei dad, Carl, yn rheolwr safle.

Ac yntau wedi cwblhau Hyfforddeiaethau Ymgysylltu a Lefel 1 mewn Gwaith Brics, mae'n gweithio tuag at Ddiploma Lefel 2 mewn Gosod Brics a Phrentisiaeth Sylfaen mewn Gwaith Daear, y cyfan yng Ngholeg Sir Benfro.

Ar ôl wynebu heriau ar gwrs arall yn y coleg, dywedodd Ross ei fod yn benderfynol o lwyddo a dilyn gyrfa yn y maes. Roedd yr Hyfforddeiaethau yn ei siwtio'n well am fod mwy o waith ymarferol a'i fod cael dysgu oddi wrth weithwyr proffesiynol yn y maes.

**Ross Vincent is on course for a career in the building trade thanks to a Traineeship which sparked his interest in bricklaying.**

Ross, 18, who lives in Pembroke Dock, has gone from his Traineeship to secure an apprenticeship with Evan Pritchard Contractors in Haverfordwest, where his father, Carl, is a site manager.

After completing Engagement and Level 1 Traineeships in Brickwork, he is now working towards a Level 2 Diploma in Bricklaying as well as a Foundation Apprenticeship in Groundworks, all at Pembrokeshire College.

Having faced some challenges with a previous course at the college, Ross said he was determined to succeed and secure a career path. The Traineeships better suited him because there was more hands on, practical work, allowing him to learn from industry professionals.



## LEWIS O'NEILL

**Mae Lewis O'Neill, 17, o Garden City, Glannau Dyfrdwy wedi troi cornel yn ei fywyd ac mae'n edrych ymlaen at yrfa ym maes clustogwaith dodrefn diolch i Raglen Hyfforddeiaethau gan Lywodraeth Cymru.**

Mae Lewis wedi cwblhau Rhaglenni Hyfforddeiaethau Ymgysylltu a Lefel 1 a Dyfarniad Estynedig City & Guilds Lefel 1 mewn Cyflogadwyedd. Roedd wedi gadael yr ysgol heb gymwysterau a bu trwy'r system gyfiawnder cyn dechrau gweithio gyda Coleg Cambria.

"Erbyn hyn, mae gen i swydd dda a rhagolygon da ac rwy'n gobeithio y gall fy stori i ysbrydoli rhywun arall," meddai Lewis sy'n gweithio tuag at Brentisiaeth Sylfaen mewn Clustogwaith Dodrefn.

Hoffai Lewis gael gyrfa lle caiff weithio gyda'i ddwylo ac erbyn hyn mae'n brentis gyda Westbridge Furniture, ar ôl creu argraff yno ar leoliad gwaith.

**Lewis O'Neill, 17, from Garden City, Deeside has turned his life around and is looking forward to a career as a furniture upholsterer after being set on the right track by the Welsh Government's Traineeship Programme.**

Lewis has completed Traineeship Engagement and Level 1 Programmes, achieving a City & Guilds Level 1 Extended Award in Employability. Lewis had left school without any qualifications and ended up in the justice system before working with Coleg Cambria.

"I now have a good job with good prospects and hope that my story can inspire someone else," said Lewis who is working towards a Foundation Apprenticeship in Upholstery.

Keen on a career where he can work with his hands, Lewis is now an apprentice at Westbridge Furniture, having impressed on a work placement.



## DYSGWR Y FLWYDDYN HYFFORDDEIAETHAU (LEFEL 1)

Er mwyn ymgeisio am y wobwr hon mae'n rhaid bod y dysgwr wedi:

- cwblhau haen Lefel 1 yn y Rhaglen Hyfforddeiaethau ac wedi symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu datblygiad personol neu i waith.
- goresgyn rhwystr sylweddol neu nifer o rwystrau tra oedd ar y Rhaglen Hyfforddeiaethau er mwyn symud ymlaen i gam nesaf ei (d)atblygiad personol neu i waith.
- symud ymlaen o haen Lefel 1 yn y Rhaglen Hyfforddeiaethau rhwng 1 Awst 2017 a 31 Rhagfyr 2020 (yn cynnwys y ddau ddyddiad hynny).

## TRAINEESHIPS LEARNER OF THE YEAR (LEVEL 1)

To apply for this award the learner must have:

- completed and progressed from the Level 1 strand of the Traineeships Programme to the next stage in their personal development or into employment.
- overcome a significant barrier or multiple barriers while on the Traineeships Programme to allow progression to the next stage of their personal development or into employment.
- progressed from the Level 1 strand of the Traineeships Programme no earlier than 01 August 2017 and no later than 31 December 2020.

NODDWDYD GAN  
SPONSORED BY

act.



## THIBAUD GAILLIARD

**Ychydig o Saesneg oedd gan Thibaud Gailliard pan ddaeth i Gymru o Ffrainc yn fachgen ifanc swil 16 oed ar ôl i'w fam farw o ganser. Doedd ganddo ddim cymwysterau ffurfiol na phrofiad o weithio. Ers hynny, disgrifiwyd ei daith ddysgu fel un "anhygoel".**

Bu Thibaud, 21 oed, o Lynebwy, yn lwcus i ganfod Rhaglen Ymgysylltu yn y Cyfryngau Creadigol ar ffurf Hyfforddeiaeth gan y darparwr hyfforddiant Sgiliau Cyf o Risga. Yn fuan iawn, aeth ati i ddysgu Saesneg, gwella'i sgiliau mewn TG, dylunio a cherddoriaeth ac ennill nifer fawr o gymwysterau. Ar ôl yr Hyfforddeiaeth, aeth Thibaud ymlaen i wneud Dyfarniad Lefel 1 i Ddefnyddwyr TGCh gyda chwmni Sgiliau. Erbyn hyn, mae'n gweithio iddynt fel gweinyddwr arweiniol ac yn gwneud Prentisiaeth Sylfaen mewn TG.

Dywedodd Thibaud: "Rwy'n teimlo mod i'n perthyn yma ac mae Sgiliau wedi rhoi cyfle am yrfa wych i mi. Hebddyn nhw, dydw i ddim yn gwybod lle byddwn i ac alla i ddim diolch digon iddyn nhw am eu help a'u cefnogaeth."

**Thibaud Gailliard could speak little English and had no formal qualifications or previous work experience when he arrived in Wales as a shy 16-year-old, following the loss of his mother to cancer. His learning journey since though has been described as "incredible".**

Luckily, Thibaud, 21, from Ebbw Vale, discovered a Traineeship Engagement Programme in Creative Media delivered by Risca-based training provider Sgiliau Cyf and quickly set about learning English, improving his IT, design and music skills and going on to add a long list of qualifications to his name. Following the Traineeship, Thibaud progressed to an ICT Users Award Level 1 with Sgiliau who now employ him as lead administrator, as well as a Foundation Apprenticeship in IT.

Thibaud said: "I now feel like I belong somewhere and Sgiliau have given me an amazing career opportunity. If I didn't have them, I don't know where I would be, and I can't thank them enough for their help and support."







## JAMIE HOPKINS

**Cafodd Jamie Hopkins ei fwlio'n ddrwg yn yr ysgol a gadawodd heb gymwysterau. Cymerodd bedair blynedd iddo ailddarganfod ei gariad at ddysgu, a hynny diolch i Hyfforddeiaeth gydag Itec.**

Dywed Jamie, 20, o Beachley, ger Cas-gwent, mai'r gefnogaeth un-i-un a gafodd gan oruchwyliwr y gweithdy, John Smith yng Nghanolfan Itec, Casnewydd a newidiodd ei fywyd. Yno, cwblhaodd Hyfforddeiaeth Lefel 1 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd.

Mae Jamie, sy'n gobeithio cael prentisiaeth gyda busnes lleol a gyrfa'n gwneud gwaith saer cywrain, yn gweithio tuag at Ddiploma Lefel 1 Gwaith Coed yng Ngholeg Gwent, Casnewydd.

Dywedodd John fod Jamie'n "ddysgwr ardderchog gyda dyfodol disglair o'i flaen."

**Jamie Hopkins was severely bullied at school, leaving without any qualifications. Four years later, he rediscovered his love of learning through a Traineeship with Itec.**

Jamie, 20, from Beachley, near Chepstow, credits his success to the life-changing one-to-one support provided by workshop supervisor John Smith at Itec's Newport Centre where he achieved a Traineeship Level 1 in Employability Skills.

Hoping to find an apprenticeship with a local business and focused on a career in fine carpentry, Jamie is now working towards a Carpentry Level 1 Diploma at Coleg Gwent, Newport.

John describes Jamie as an "outstanding learner with a bright future."



## CHLOE HARVEY

**Er ei bod yn eithriadol o swil pan adawodd yr ysgol, erbyn hyn, ar ôl cychwyn taith ddysgu ar Raglen Hyfforddeiaeth gan Lywodraeth Cymru, mae Chloe Harvey yn weithwraig hyderus.**

Ar ôl penderfynu nad oedd am fynd i'r chweched dosbarth yn yr ysgol, daeth Chloe, 19, o Gil-maen, ger Penfro, i gysylltiad â'r darparwr dysgu PRP Training Ltd.

Bu cwblhau Hyfforddeiaeth Lefel 1 mewn Gweinyddu Busnes yn ysbrydoliaeth i Chloe a chafodd leoliad gwaith gyda Genpower Ltd, Doc Penfro. Llwyddodd i greu'r fath argraff nes bod y cwmni wedi creu prentisiaeth newydd fel y gallent ei chyflogi. Ers hynny, mae wedi cwblhau Prentisiaeth Sylfaen mewn Gweinyddu Busnes ac wedi datblygu sgiliau ym maes trefnu, gwasanaethu cwsmeriaid a TG i'w galluogi i addasu'n hwylus i weithio gartref yn ystod pandemig Covid-19.

Erbyn hyn, mae Chloe yn helpu i hyfforddi aelodau newydd tîm Genpower.

**A shy school leaver has been transformed into a confident, self-assured employee after beginning her learning journey with the Welsh Government's Traineeship Programme.**

Chloe Harvey, 19, of Monkton, near Pembroke, linked up with learning provider PRP Training Ltd after deciding sixth form studies at school were not for her.

Inspired by achieving a Traineeship Level 1 in Business Administration, Chloe secured a placement with Genpower Ltd, Pembroke Dock where she impressed so much that the company created a new apprenticeship role so that they could employ her. She has since completed a Foundation Apprenticeship in Business Administration, developing organisational, customer service and IT skills which have enabled her to adapt smoothly to working from home during the Covid-19 pandemic.

Chloe is now helping to train Genpower's new recruits.





## PRENTIS SYLFAEN Y FLWYDDYN

Er mwyn ymgeisio am y wobwr hon mae'n rhaid:

- bod y dysgwr wedi cwblhau fframwaith Prentisiaeth Sylfaen yng Nghymru (bydd angen dangos tystiolaeth o'r dystysgrif cyn y gwneir penderfyniad gan y beirniaid).
- nad oedd wedi'i gwblhau cyn 1 Awst 2017 nac ar ôl 31 Rhagfyr 2020.

## FOUNDATION APPRENTICE OF THE YEAR

To apply for this award the learner must have:

- completed a Foundation Apprenticeship framework in Wales (evidence of certification will be required prior to any judging decision being made).
- completed it no earlier than 1 August 2017 and no later than 31 December 2020.

NODDWDYD GAN  
SPONSORED BY



## BETHANY MASON

**Mae parodrwydd i ddysgu sgiliau newydd ac i gymryd mwy o gyfrifoldeb o dan amgylchiadau anodd wedi helpu Bethany Mason i ragori yn ei gwaith fel swyddog gwasanaethau profedigaeth.**

Ers iddi ymuno â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel prentis swil yn 2016, mae Bethany, 21, wedi llwyddo i oresgyn nifer o heriau anodd, gan wneud gwahaniaeth enfawr i staff Amlogfa Glyn-taf ger Pontypridd a'r teuluoedd galarus sy'n defnyddio'r amlogfa. Mae wedi cwblhau Prentisiaeth Sylfaen ac mae bron â chwblhau NVQ lefel 3 mewn Gweinyddu Busnes, y ddau gymhwyster wedi'u darparu gan Goleg y Cymoedd.

Yn ogystal, mae Bethany, o Lantrisant, wedi meithrin sgiliau arwain, wedi digideiddio a chanoli cofnodion claddu a chynlluniau mynwentydd Rhondda Cynon Taf ac wedi cyflwyno system ddigidol i deuluoedd ganfod cerddoriaeth ar gyfer gwasanaethau amlogi, ynghyd â gweddarllediadau a theyrngedau gweledol.

**A willingness to learn new skills and take on more responsibility in challenging circumstances has helped Bethany Mason to develop into an excellent bereavement services officer.**

Since joining Rhondda Cynon Taf County Borough Council as a shy apprentice in 2016, Bethany, 21, has risen to a series of difficult challenges, making a huge difference to the staff of Glyntaff Crematorium at Glyntaff, Pontypridd and the grieving families they work with. She has achieved a Foundation Apprenticeship and is now close to completing an NVQ level 3 in Business Administration, both delivered by Coleg y Cymoedd.

Bethany, from Lantrisant, has also developed leadership skills, digitised and centralised burial records and cemetery plans for RCT Cemeteries and introduced digital music for family cremation services, together with webcasts and visual tributes.







## JOEL MALLISON

**Mae Joel Mallison, prentis a cherddor, wedi taro'r nodyn ar ei ben wrth newid gyrfa gan ei fod yn gwneud yn ardderchog fel prentis gyda chwmni telathrebu Openreach.**

Ar ôl mynd i astudio cerddoriaeth a graddio gyda rhagoriaeth mewn Cynhyrchu ar gyfer y Radio, bu Joel, 30, o'r Fenni, yn gweithio ym musnes paentio ac addurno ei dad am chwe blynedd cyn penderfynu newid gyrfa.

Gan fod ganddo ddiddordeb mewn telathrebu, aeth Joel at Openreach a chwblhau Prentisiaeth Sylfaen ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol mewn TG, Meddalwedd, y We a Thelathrebu fis Medi diwethaf. Darparwyd y brentisiaeth gan Openreach a'i chefnogi gan ALS Training, Caerdydd.

Dywedodd rheolwr bro Openreach yn ardal y Fenni, Matthew James: "Mae Joel yn gydwybodol iawn. Ar ôl gweithio gyda Joel, mae fy nisgwyladau ar gyfer fy mheirianwyr yn uchel iawn."

**Apprentice and musician Joel Mallison has struck the right note with a career change, excelling as an apprentice with telecommunications company Openreach.**

After initially studying music and graduating with a distinction in Radio Production, Joel, 30, from Abergavenny, worked in his father's painting and decorating business for six years before seeking a new career.

An interest in telecommunications led Joel to Openreach where he completed a Foundation Apprenticeship in IT Software Web and Telecoms Professionals last September. The apprenticeship was delivered by Openreach and supported by ALS Training, Cardiff.

Openreach Abergavenny patch manager, Matthew James said: "Joel's work ethic is very strong. He sets the bar extremely high in terms of my expectations for my engineers."



## STEVIE WILLIAMS

**Mae Stevie Williams wedi rhoi'r gorau i'w swydd ym myd gwasanaethau cwsmeriaid er mwyn gwneud prentisiaeth gan anelu at yrfa'i breuddwydion sef dysgu peirianeg.**

Cafodd Stevie, 36, o'r Goetre, Port Talbot, swydd fel technegydd a hyfforddwr peirianeg fecanyddol gyda Grwp Colegau NPTC ar ôl cwblhau Prentisiaeth Sylfaen Peirianeg Fecanyddol mewn Cyflawni Gweithrediadau Peirianeg (Lefel 2) a Chymhwyster Cysylltiedig â Galwedigaeth (VRO), Lefel 2, chwe mis yn gynnar. Erbyn hyn, mae'n gweithio tuag at Brentisiaeth a VRO Lefel 3 gan fwriadu symud ymlaen i wneud Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) a Phrentisiaeth Radd yn y dyfodol er mwyn gwredu ei huchelgais o fod yn ddarlithydd mewn peirianeg.

Dywedodd Stevie, sy'n gwneud ei phrentisiaeth gyda Pathways Training, "Erbyn hyn, rwy mewn swydd ddiogel, mewn gyrfa sydd â rhagolygon gwych. Fyddai hynny ddim yn bosib heb fy mhrentisiaeth."

**Apprentice Stevie Williams has swapped her job in customer services to pursue her dream career teaching engineering.**

Stevie, 36, from Goytre, Port Talbot, secured a job as a mechanical engineering technician and instructor at NPTC Group after completing a Performing Engineering Operations Level 2 Mechanical Engineering Foundation Apprenticeship and Vocationally-Related Qualification (VRO) Level 2 six months early. Now working towards an Apprenticeship and VRO Level 3, Stevie plans to progress to a Postgraduate Certificate in Education and Degree Apprenticeship to realise her ambition of becoming an engineering lecturer.

Stevie, who is completing her apprenticeships with Pathways Training, said: "I am now in a secure position in a career with amazing prospects, all of which would not have been possible without my apprenticeship."





## PRENTIS Y FLWYDDYN

Er mwyn ymgeisio am y wobwr hon mae'n rhaid:

- bod y dysgwr wedi cwblhau fframwaith Prentisiaeth yng Nghymru (bydd angen dangos tystiolaeth o'r dystysgrif cyn y gwneir penderfyniad gan y beirniaid).
- nad oedd wedi'i gwblhau cyn 1 Awst 2017 nac ar ôl 31 Rhagfyr 2020.

## APPRENTICE OF THE YEAR

To apply for this award the learner must have:

- completed an Apprenticeship framework in Wales (evidence of certification will be required prior to any judging decision being made).
- completed it no earlier than 1 August 2017 and no later than 31 December 2020.

NODDWDYD GAN  
SPONSORED BY



## OWAIN CARBIS

**Dychmygwch pa mor gyffrous fyddai cael cyfle i greu a helpu i reoli negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cyfres deledu eiconig ar y BBC a chithau'n ddim ond 19 oed.**

Dyna'n union ddigwyddodd i Owain Carbis, bachgen dawnus o Ddraenen Pen-y-graig, Caerdydd, yn ystod ei brentisiaeth gydag adran ddigidol a marchnata BBC Cymru Wales.

Roedd fel gwireddu breuddwyd i Owain, sy'n weithiwr llawrydd erbyn hyn, gan ei fod wrth ei fodd â Doctor Who. Cafodd ei waith, a welwyd gan filiynau o bobl ym mhedwar ban byd, ganmoliaeth fawr gan rai o'i gydweithwyr profiadol yn y BBC.

Darparwyd Prentisiaeth Owain yn y Cyfryngau Creadigol a Digidol gan Sgil Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Just imagine the buzz of being asked to create and help manage the social media content for an iconic BBC television series at the age of 19.**

That's exactly what happened to talented Owain Carbis, 19, of Thornhill, Cardiff, during his apprenticeship with the digital and marketing department at BBC Cymru Wales.

For Owain, who is now working freelance, it was a dream come true, as he's an avid Doctor Who fan. His work, which was seen by a worldwide audience of millions, was highly praised by senior colleagues at the BBC.

Owain's Apprenticeship in Creative and Digital Media was delivered through the medium of Welsh by Sgil Cymru.







## WILLIAM DAVIES

**Mae William Davies yn brentis sydd wedi arbed £20,000 y flwyddyn i'w gyflogwr trwy awtomeiddio system cydosod cynnyrch.**

Mae William, 20, o Llywdcoed, Aberdâr, yn gweithio i Kautex Textron CVS Ltd yn Hengoed, sef busnes rhyngwladol sy'n arbenigo mewn systemau gweld yn glir ar gyfer y diwydiant moduro. Yn ogystal, mae wedi rhoi argraffydd newydd 3D Rapid Prototyping ar waith er mwyn helpu i ddatblygu systemau cerbydau awtonomaidd ac mae wedi gwneud gwelliannau ym meysydd Iechyd a Diogelwch a chynhyrchiant. Cwblhaodd William Brentisiaeth mewn Gweithgynhyrchu Peirianeg (Cymorth Technegol ym maes Peirianeg) chwe mis yn gynt na'r disgwyl yng Ngholeg y Cymoedd lle'r enillodd ddwy wobwr. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio tuag at HNC Lefel 4 mewn Peirianeg Fecanyddol yng Ngholeg Pen-y-bont.

Roedd Steve Mills, rheolwr gwaith technegol a gwelliant parhaus y cwmni, yn canmol William am ei allu mewn nifer o wahanol feysydd, gan ddweud ei fod eisoes yn gweithio ar lefel peiriannydd gweithgynhyrchu â gradd.

**Apprentice William Davies has saved his employer £20,000 a year by automating a product assembly system.**

William, 20, from Llywdcoed, Aberdare, works for Kautex Textron CVS Ltd in Hengoed, a multi-national business specialising in clear vision systems for the automotive industry. His other achievements to date include commissioning a new Rapid Prototyping 3D printer to assist in autonomous vehicle systems development and implementing Health and Safety and productivity improvements. William achieved an Apprenticeship in Engineering Manufacture (Engineering Technical Support) six months ahead of schedule at Coleg y Cymoedd, receiving two awards. He is now working towards a Level 4 HNC in Mechanical Engineering at Bridgend College.

Steve Mills, continuous improvement and technical manager, praised William's all-round ability, saying he is already working to the level of a graduate manufacturing engineer.



## OWEN LLOYD

**Mae Owen Lloyd yn brentis sy'n ymdrechu i ddatrys y problemau llifogydd sy'n poeni pobl Rhondda Cynon Taf a'i uchelgais yw rhagori fel peiriannydd sifil.**

Mae Owen, 23, o Goed y Cwm, Pontypridd, yn gweithio i'r Tîm Rheoli Perygl Llifogydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Enillodd ragoriaeth yn ei gwrs BTEC Lefel 3 mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (Peirianeg Sifil) yng Ngholeg Pen-y-bont, a'i nod yn y pen draw yw bod yn Beiriannydd Sifil Siartredig.

Enillodd Owen Ysgoloriaeth ICE Quest a dyfarnwyd ef yn Brentis y Flwyddyn gan y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus ym maes Priffyrdd a Goleuo Strydoedd fis Hydref diwethaf.

Dywedodd Owen: "Rwy'n gweithio i'r safon uchaf er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i fy nghyflogwr ac i'r cyhoedd sy'n dibynnu ar fy ngwaith i i'w cadw nhw a'u teuluoedd yn ddiogel mewn stormydd."

**Apprentice Owen Lloyd's mission is to become the best civil engineer possible, working to provide flooding solutions for the people of Rhondda Cynon Taf.**

Owen, 23, from Coed y Cwm, Pontypridd, works for the Flood Risk Management Team at Rhondda Cynon Taf County Borough Council.

He completed a Level 3 BTEC in Construction and the Built Environment (Civil Engineering) course with distinction at Bridgend College, ultimately aiming to qualify as a Chartered Civil Engineer.

Owen was awarded an ICE Quest Scholarship, winning the Association for Public Service Excellence Highways and Street Lighting Apprentice of the Year Award last October.

Owen said: "I carry out my work to the highest standard to provide the best service possible not only to my employer but also to members of the public who rely on my work to keep them and their families safe during storms."





## PRENTIS UWCH Y FLWYDDYN

Er mwyn ymgeisio am y wobwr hon mae'n rhaid:

- bod y dysgwr wedi cwblhau fframwaith Prentisiaeth Uwch yng Nghymru (bydd angen dangos tystiolaeth o'r dystysgrif cyn y gwneir penderfyniad gan y beirniaid).
- nad oedd wedi'i gwblhau cyn 1 Awst 2017 nac ar ôl 31 Rhagfyr 2020.

## HIGHER APPRENTICE OF THE YEAR

To apply for this award the learner must have:

- completed a Higher Apprenticeship framework in Wales (evidence of certification will be required prior to any judging decision being made).
- completed it no earlier than 1 August 2017 and no later than 31 December 2020.

NODDWDYD GAN  
SPONSORED BY



## NATALIE MORGAN

Ar ôl bod yn gweithio yn sector y celfyddydau perffornio yn Llundain am sawl blwyddyn, daeth Natalie Morgan yn ôl i Gymru i ddilyn gyrfa ym maes chwaraeon, ac fe gafodd swydd gyda Gymnasteg Cymru.

Aeth ymlaen i gwblhau Prentisiaeth Uwch (Lefel 4) mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth gyda Portal Training o Gaerdydd ac yn awr mae wedi symud ymlaen i Lefel 5. Diolch i'r sgiliau a ddysgodd yn ystod ei phrentisiaeth, roedd modd i Natalie, 33, o Benarth, arwain prosiect llwyddiannus i gael merched ifanc a menywod o'r gymuned pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd i gymryd rhan mewn gymnasteg. Lansiwyd y clwb gymnasteg gydag 11 o ferched, ond tyfodd i dros 130, gyda chynnydd o 98% yn nifer yr aelodau mewn dim ond 18 mis.

Dywedodd Carys Kizito, rheolwr cydymffurfio gyda Gymnasteg Cymru: "Mae Natalie wedi defnyddio ei hangerdd a'i hymroddiad i ddysgu er mwyn rhoi cyfleoedd da i bobl eraill."

After working within the performing arts sector for several years in London, Natalie Morgan returned to Wales to pursue a career in sport, securing a job with Welsh Gymnastics.

She went on to successfully complete a Higher Apprenticeship (Level 4) in Leadership and Management with Cardiff-based Portal Training and has now progressed to Level 5. Using the skills she learnt during her apprenticeship, Natalie, 33, from Penarth, was able to lead a successful outreach project to engage young girls and women from the Black, Asian and Minority Ethnic community in gymnastics. Launched with 11 girls, the Cardiff club grew to more than 130, increasing numbers by 98% in just 18 months.

Carys Kizito, Welsh Gymnastics' compliance manager, said: "Natalie has used her passion and commitment to learning to provide quality opportunities for others."







## RHYANNE ROWLANDS

**Mae Prentisiaethau Uwch wedi helpu Rhyanne Rowlands i ddatblygu o fod yn wirfoddolwraig i fod yn swyddog llawn amser gyda Chymorth i Fenywod RhCT, gan arwain prosiectau llwyddiannus i gefnogi rhai sydd wedi dioddef cam-drin domestig.**

Roedd Rhyanne, 38, o Aberdâr, wedi dioddef cam-drin domestig ei hunan yn y gorffennol ac, ar ôl dechrau gwirfoddoli gyda Chymorth i Fenywod yn 2016, erbyn hyn hi yw swyddog datblygu Safer Rhondda. I ddechrau, dewisodd Rhyanne wneud prentisiaeth gyda'r darparwr dysgu, Educ8, er mwyn cael mwy o wybodaeth a hunanhyder.

Erbyn hyn, mae wedi cwblhau Prentisiaethau Uwch Lefel 4 mewn Cyngor ac Arweiniad yn ogystal ag Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac mae wedi cymhwyso fel arbenigwraig mewn cam-drin domestig a symud ymlaen i Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar Lefel 5. Rhyanne oedd yn gyfrifol am sefydlu a rhedeg prosiect Athena i helpu menywod dros 50 oed. Enillodd y prosiect wobwr Tlws Crisial Cwm Taf yn 2018.

**Higher Apprenticeships have helped Rhyanne Rowlands develop her role with Women's Aid RCT from volunteer to a full-time officer leading award-winning projects to support victims of domestic abuse.**

A domestic abuse victim herself earlier in her life, Rhyanne, 38, from Aberdare, started as a volunteer for Women's Aid in 2016 and is now the Safer Rhondda development officer. Rhyanne initially chose to do an apprenticeship with learning provider Educ8 to improve her knowledge and self-confidence.

She has now achieved Level 4 Higher Apprenticeships in Advice and Guidance and Leadership and Management, qualified as a domestic abuse specialist and progressed to Leadership and Management Apprenticeship at Level 5. Rhyanne set up and ran the Athena project to support women over the age of 50, which won the Cwm Taf Crystal Trophy Award in 2018.



## CIARA LYNCH

**Mae Ciara Lynch, sy'n Brentis Uwch, yn gwneud ei marc ym maes adeiladu a pheirianeg sifil, diolch i'w gwaith ardderchog fel technegydd cynorthwyol gyda Chyngor Abertawe.**

Eisoës, enillodd Ciara, 22, o Dreforys, HNC mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig a Phrentisiaeth Uwch Lefel 4 mewn Goruchwyllo Safleoedd Adeiladu yng Ngholeg Pen-y-bont. A hithau wedi cael Ysgoloriaeth Quest gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE), ei nod yn y pen draw yw bod yn Beiriannydd Sifil Siartredig ac mae wedi dechrau ar radd mewn Peirianeg Sifil. Mae Ciara, sy'n llysgennad gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM), yn awyddus i hyrwyddo manteision prentisiaethau, gan dynnu sylw at gyfleoedd i fenywod mewn diwydiant sy'n hybu amrywiaeth.

Dywed Ciara bod prentisiaethau'n wych am eu bod yn cyfuno profiad a sgiliau'r gweithle gyda gwybodaeth academiaidd.

**Higher Apprentice Ciara Lynch is making a name for herself in the construction and civil engineering sector, thanks to her outstanding work as an assistant technician with Swansea Council.**

Ciara, 22, from Morriston, has achieved a HNC in Construction and the Built Environment and a Higher Apprenticeship Level 4 in Construction Site Supervision at Bridgend College. Having received an Institution of Civil Engineers (ICE) Quest Scholarship, her ultimate aim is to become a Chartered Civil Engineer, having recently started a Degree in Civil Engineering. A science, technology, engineering, and mathematics (STEM) ambassador, Ciara is keen to promote the benefits of an apprenticeship, highlighting opportunities for women in an industry that actively encourages diversity.

Ciara says apprenticeships are brilliant because they combine workplace experience and skills with the academic knowledge.





## DONIAU'R DYFODOL

### Dylai'r ceisiadau ddangos:

- ymroddiad gan brentis i ddatblygiad personol parhaus.
- prentis sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at y busnes gan gynnig gwerth ychwanegol.
- prentis sydd wedi dangos sgiliau lefel uchel a/neu wedi cyfrannu'n sylweddol at y sector y mae'n gweithio ynddo.
- y "pellter a deithiwyd" gan y prentis er mwyn llwyddo yn y maes a ddewiswyd ganddo/ganddi.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Gwobr Doniau'r Dyfodol, rhaid i'r prentis sy'n cael ei enwebu fod yn rhan o gynllun prentisiaeth ar hyn o bryd a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw lefel

## TOMORROW'S TALENT

### Entries should demonstrate:

- proven commitment by an apprentice to continued personal development.
- an apprentice who has contributed significantly to the business and provided added value.
- an apprentice who has demonstrated a high level of skills and/or has contributed significantly to the sector within which they work.
- the "distance travelled" by the apprentice to succeed in their chosen field.

To be eligible for the Tomorrow's Talent Award, the nominated apprentice must be currently undertaking a Welsh Government funded apprenticeship at any level.

NODDWDYD GAN  
SPONSORED BY

openreach



## SOPHIE WILLIAMS

**Ar ôl graddio, bwriad Sophie Williams oedd mynd yn athrawes. Yna, gwelodd y lles y mae maethu'n gallu ei wneud i fywydau plant a'u rhieni biolegol, sy'n cael cyfle i roi trefn ar eu bywydau.**

Cafodd Sophie brofiad o werth maethu pan ddechreuodd ei mam, Lesley, gymryd plant maeth a gwnaeth hynny iddi benderfynu ceisio bod yn weithiwr cymdeithasol.

Ar ôl cwblhau Prentisiaeth mewn Gweinyddu Busnes yn adran Faethu Cyngor Rhondda Cynon Taf, cafodd Sophie ei dyrchafu'n swyddog recriwtio rhanbarthol yn ddiweddar. Ei nod yw gwneud Gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol. Darparwyd ei phrentisiaeth gan Goleg y Cymoedd.

Dywedodd Sophie: "Mae fy mhrentisiaeth wedi rhoi cyfle i mi gael swydd lawn amser, ennill cymwysterau a gweld y llu o wahanol agweddau ar waith cymdeithasol."

**Graduate Sophie Williams was destined for a teaching career until she witnessed the positive impact that fostering has on children and their biological parents, who are given a chance to get their lives back on track.**

After experiencing fostering first hand when her mum, Lesley, became a foster parent, Sophie decided to strive to become a qualified social worker.

Having completed an Apprenticeship in Business Administration with Fostering RCT, Sophie has recently been promoted to regional recruitment officer, aiming for a Master's Degree in Social Work in the future. Her apprenticeship provider was Coleg y Cymoedd.

Sophie said: "My apprenticeship has given me the chance to gain full-time employment, get qualified and to see the many different aspects of social work."







## CONNOR PASKELL

**Mae gyrfya Connor Paskell wedi codi'n uchel ers iddo gychwyn prentisiaeth gyda British Airways Avionic Engineering (BAAE) yn Llantrisant.**

Roedd Connor, 21, sy'n byw yn Llantrisant, yn benderfynol o gychwyn gyrfya mewn peirianeg ac aeth ar gwrw peirianeg llawn-amser yng Ngholeg y Cymoedd tra oedd yn gweithio rhan-amser mewn meithrinfa. Talodd ei ymroddiad ar ei ganfed iddo, gan iddo ennill cymhwyster Peirianeg Uwch BTEC â rhagoriaeth ac ennill gwobr Prentis Peirianeg y Flwyddyn yn y Coleg. Ymunodd Connor â BAAE yn 2018 a disgwylir iddo gwblhau ei brentisiaeth fel peiriannydd awyrennau ym mis Awst. Mae'n gobeithio symud ymlaen i wneud HNC.

Dywedodd Martine Roles, rheolwr adnoddau dynol gyda BAAE yn Llantrisant: "Mae Connor wedi dod yn rhan bwysig o'r busnes yn ystod ei brentisiaeth ac ef yw'r dewis cyntaf i weithio ar nifer o brosiectau. Mae'n anelu at berffeithrwydd ac yn ei gyrraedd."

**Apprentice Connor Paskell's career has taken off since joining British Airways Avionic Engineering (BAAE) in Llantrisant.**

Connor, 21, who lives in Llantrisant, was determined to pursue a career in engineering, enrolling on a full-time engineering course at Coleg y Cymoedd whilst continuing to work part-time at a nursery. His commitment paid off, completing a BTEC Enhanced Engineering qualification with a distinction and winning the college's Engineering Apprentice of the Year Award. Connor joined BAAE in 2018 and is due to complete his apprenticeship as an avionic engineer this August, hoping to progress to a HNC.

Martine Roles, human resources manager for BAAE in Llantrisant, said: "Connor has become an integral part of the business throughout his apprenticeship and the sought-after person for project work. He consistently strives for perfection and achieves it."



## RYAN HARRIS

**Beth bynnag y mae'n ei wneud – ysbrydoli peirianwyr y dyfodol neu helpu ei gyflogwr i fod yn fwy effeithlon a chanfod a thrwsio diffygion, mae Ryan Harris yn brentis sydd wedi creu argraff ar bawb.**

Mae Ryan, 21, o'r Ddraenen Wen, Pontypridd, yn brentis technegydd datblygu prosesau gyda chwmni byd-eang Renishaw sy'n gweithio ym maes peirianeg fanwl ar eu safle ym Meisgyn, ger Pontyclun. Yn ystod ei brentisiaeth, mae Ryan wedi arbed miloedd o bunnau i'r cwmni wrth addasu peiriannau i arbed ynni a gwella prosesau archebu a storio nwyddau.

Ar ôl ennill cyfres o gymwysterau peiranyddol trwy Goleg y Cymoedd, yn cynnwys Prentisiaeth mewn Gosod a Chomisiynu, mae Ryan yn gweithio tuag at HNC Mecanyddol Pearson a drefnir gan Goleg Pen-y-bont.

